

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Gorffennaf 9:

10.00 a.m. - Morgan Williams, Pwllheli

Dydd Sul, Gorffennaf 16:

10.00 a.m. - Gwilym Charles Williams
5.00 p.m. - Dim Oedfa

Dydd Sul, Gorffennaf 23:

10.00 a.m. - Andrew Settatre
5.00 p.m. - Dim Oedfa

Dydd Sul, Gorffennaf 30:

10.00 a.m. - Oedfa

Dydd Sul, Awst 6

10.00 a.m. - Y Parchg Olwen Williams

Dydd Sul, Awst 13

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith

Dydd Sul, Awst 20

10.00 a.m. - Y Paerchg Cath Williams

Dydd Sul, Awst 27

10.00 a.m. - Y Gweinidog

CARMEL

Dydd Sul, Gorffennaf 9:

5.00 p.m. - Y Parchg Marcus Robinson

Dydd Sul, Gorffennaf 16:

5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Hughes

Dydd Sul, Gorffennaf 23:

5.00 p.m. - Oedfa

Dydd Sul, Gorffennaf 30:

5.00 p.m. - Oedfa

Dydd Sul, Awst 6

10.00 a.m. a 5.00 p.m. Uno yn Jerwsalem

Dydd Sul, Awst 13

10.00 a.m. a 5.00 p.m. Uno yn Jerwsalem

Dydd Sul, Awst 20

10.00 a.m. a 5.00 p.m. Uno yn Jerwsalem

Dydd Sul, Awst 27

5.00 p.m. - Y Gweinidog

YC
Y Cymro

Cenedl heb coth, cenedl heb godol

www.ycymro.com

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 736: 02 Gorffennaf, 2017

Y rhifyn olaf

Diwedd Mehefin a diwedd cyfnod, am y tro beth bynnag. Doedd yna ddim pennawd dramatig i gyhoeddi'r ffaith, ond ddydd Gwener fe gyhoeddwyd rhifyn olaf *Y Cymro* dan berchnogaeth y cwmni a fu'n gyfrifol amdano ers 2005. O bosibl y gwêl olau dydd eto mewn rhyw wedd dan oruchwyliaeth newydd, ond bydd rhaid aros sbel am hynny mae'n debyg. Cyhoeddwyd *Y Cymro* yn wythnosol ers 1932, er bod sawl papur wedi dwyn y teitl ers i'r *Cymro* cyntaf ymddangos yn 1848.

Cilio'n dawl a wnaeth y papur ddydd Gwener, gydag erthygl ar dudalen 9 yn nodi'r ffaith mai dyma'r rhifyn olaf. Byddai rhai'n dadlau fod hynny'n nodweddiadol ohonom fel cenedl nad yw'n mynnu tynnu sylw ati ei hun. Mor wahanol y dudalen flaen olaf hon i eiddo papurau diflanedig diweddar Lloegr: 'GOODBYE: It's been great to know you'; 'THANK YOU AND GOODBYE'; a 'STOP PRESS'. Wyddoch chi pa dri phapur a roddodd y geiriau hynny ar flaen eu rhifynnau olaf? Does ond gobeithio bod y cilio tawel a di-ffws yn awgrymu y gall *Y Cymro* ddychwelyd yn fuan iawn.

Tasg gynyddol anodd yw cyhoeddi papur newydd neu gylchgrawn, er nad yw hynny'n amlwg chwaith o weld y doreth o gylchgronau am bob math o bynciau sydd ar werth yn y siopau heddiw. Mae'r dasg honno'n anos fyth mewn iaith leiafrifol fel y Gymraeg, ac mae'n drueni na roed i'r Cymro ragor o nawdd cyhoeddus dros y blynyddoedd

diwethaf i'w alluogi i ddatblygu ac i oroesi. Ac o gofio fod y Tywysog Charles, yn ôl cân Dafydd Iwan, yn 'darllen *Y Cymro* a'r *Faner*' mae'n siwr ei fod yntau'n rhannu ein gofid fod y ddau bapur erbyn hyn yn perthyn i'r gorffennol (er bod *Y Faner Newydd* ers 1997 wedi arddel teitl y papur a ddaeth i ben yn 1992).

Ond mae diflaniad *Y Cymro* hefyd yn ein hatgoffa o wyrth parhad y papurau a'r cylchgronau Cristnogol ac enwadol sydd gennym yng Nghymru. Mae tri o'r enwadau'n dal i gyhoeddi papur wythnosol (gyda'r *Pedair Tudalen Cydenwadol* yn cael ei gynnwys yn y tri), un arall yn cyhoeddi cylchgrawn bob deufis, a chyhoeddir *Cristion* a'r *Cylchgrawn Efengylaidd* bob tri mis. Yn y Gymru Gristnogol Gymraeg sydd ohoni, mae hyn yn gryn ryfeddod. Rhaid canmol a diolch i'r enwadau am eu nawdd i'r cyhoeddiadau hyn. Rhaid diolch hefyd i bawb sy'n eu cefnogi trwy eu prynu a'u darllen. Yr un pryd, anogwn eraill i wneud yr un peth, nid yn unig er mwyn diogelu eu parhad ond hefyd er mwyn elwa ar yr holl ddeunydd a gyhoeddir ynddynt.

Nid dyma'r unig ddeunydd Cristnogol Gymraeg a gyhoeddir heddiw wrth gwrs. Mae sawl eglwys a gofalaeth yn cyhoeddi cylchgrawn yn fisol neu'n achlysurol, a chyhoeddir deunydd yn gyson ar y We. Ond diwrnod trist fyddai'r dydd y gwelid tranc yr un o'r papurau a'r cylchgronau sy'n cyfrannu at dystiolaeth yr Efengyl yn ei gwlad.



CYRSIAU HAF 2017

19 67
CWRS IEUENCTID
COLEG Y BALA

ANHREFN
AWST

SO

Souled Out

Gorffennaf 31 - Awst 4
blynyddoedd 7-11

Awst 14 - 17
plant 8-12 oed

Awst 19 - 24
15+ oed
cwrs dwyieithog



I archebu eich lle neu am fwy o fanylion:
colegybala@ebpcw.org.uk 01678 520565

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn (A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Gwareda fi, O Dduw,
oherwydd cododd y dyfroedd
at fy ngwddf. Yr wyf yn
suddo mewn llaid dwfn, a heb le i sefyll
arno; yr wyf wedi mynd i ddyfroedd
dyfnion, ac y mae'r llifogydd yn fy sgubo
ymaith. Yr wyf wedi diffygio'n gweiddi,
a'm gwddw'n sych; y mae fy llygaid yn
pylu wrth ddisgwyl am fy Nuw' (Salm
69:1-3).



BEIBL BYW

Heddiw

Bydd yr oedfa yn Capel Coch am 10.00
o'r gloch yng ngofal rhai o'r aelodau.
Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.
Ni fydd oedfa am 5.00 o'r gloch. Y
Parchg Dafydd Lloyd Hughes oedd i fod
i arwain yr oedfaon yn Capel Coch, ond
ni all wneud hynny oherwydd gwaelledd.

Anfonwn ein cofion cynhesaf ato.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn yr oedfa Gymun yn

Llanllechid am 5.00 o'r gloch gan y
Gweinidog.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r
gloch gan y Parchg Harri Parri.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb
fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n
methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Gwyliau

Bydd y Gweinidog oddi cartref o ddydd
Sadwrn, Gorffennaf 8 hyd ddydd
Sadwrn, Gorffennaf 15.

Ysgol Sul Carmel

Aeth criw Ysgol Sul Carmel i grochendy
Piggery Pottery yng Nghwm-y-glo fore
Sul diwethaf. Mae gwyliau'r Ysgol Sul
yn cychwyn heddiw, a bydd y gwaith yn
ail ddechrau ym mis Medi. Diolch yn
fawr iawn i'r athrawon am eu holl waith
ar hyd y flwyddyn.

Y TRI PHAPUR

I'r sawl sy'n hoffi cwis, dyma'r tri phapur
newydd a gyhoeddodd y penawdau a
nodwyd yn yr erthygl ar flaen y rhifyn
hwn:

'GOODBYE: It's been great to know
you' – *TODAY* (Tachwedd 17, 1995)

'THANK YOU AND GOODBYE' –
NEWS OF THE WORLD (Gorffennaf 10,
2011)

'STOP PRESS' – *THE INDEPENDENT*
(Mawrth 27, 2016).

Te Mefus

Cynhaliwyd y Te Mefus blynyddol yn
Festri Bethlehem Talybont nos Fercher
diwethaf. Diolch am bob cefnogaeth.

Bydd cyfeillion Bwrlwm Talybont yn
mynd am Swper i Glwb Golff Caernarfon
nos Wener, Gorffennaf 14.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Gogledd
Arfon yng Nghapel Coffa, Cyffordd
Llandudno nos Fercher, Gorffennaf 5.
Dechreuir am 7.00 o'r gloch.

Yn ail ran y cyfarfod ceir cyflwyniad byr
gan y Parchg Aled Davies, Chwilog i
'Blwyddyn Byw'r Beibl' a drefnwyd ar y
cyd gan y Cyngor Ysgolion Sul, Gobaith
i Gymru a Chymdeithas y Beibl.

Ceir hefyd adroddiad gan y Parchg Dylan
Rhys Parry, Llandudno o Gyfarfodydd
Blynyddol Undeb yr Annibynwyr, a
gynhaliwyd yn Rhydaman yn ddiweddar.

Henaduriaeth

Cynhelir cyfarfod nesaf Henaduriaeth
Arfon am 6.30 o'r gloch, nos Fawrth,
Gorffennaf 11 yng nghapel Baladeulyn.

Pendref, Bangor

Mae Annibynwyr a'r Bedyddwyr wedi
dod at ei gilydd ym Mangor ers tro i
ffurfio Gofalaeth newydd, ond hefyd i
ffurfio eglwys unedig dan yr enw Eglwys
Emaus. Ers hynny, bu'r eglwys unedig
yn cyfarfod yng nghapel Pendref a chapel
Penuel ar yn ail â'i gilydd. Erbyn hyn,
penderfynwyd mai capel Penuel fydd
cartref yr eglwys unedig ac y bydd capel
Pendref yn cael ei werthu. Cynhelir yr
oedfa olaf ym Mhendref am 10.00 o'r
gloch, fore Sul, Gorffennaf 9. Y Parchg
John Gwilym Jones, a fu'n weinidog ym
Mhendref am ddeugain mlynedd, fydd yn
arwain yr oedfa. Croeso cynnes i bawb.

Cyhoeddiadau'r Haf

Dyma restrau o oedfaon yr Ofalaeth dros
yr haf.

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Gorffennaf 9:
5.00 p.m. - Mr Richard Lloyd Jones

Dydd Sul, Gorffennaf 16:
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Dydd Sul, Gorffennaf 23:
5.00 p.m. - Miss Eleri Jones

Dydd Sul, Gorffennaf 30:
Dim Oedfa

Dydd Sul, Awst 6
Dim Oedfa

Dydd Sul, Awst 13
5.00 p.m. - Y Parchg Eifion W Williams

Dydd Sul, Awst 20
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Dydd Sul, Awst 27
5.00 p.m. - Y Parchg Gwynfor Williams

BETHLEHEM

Dydd Sul, Gorffennaf 9:
2.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

Dydd Sul, Gorffennaf 16:
2.00 p.m. - Y Gweinidog

Dydd Sul, Gorffennaf 23:
2.00 p.m. - Oedfa

Dydd Sul, Gorffennaf 30:
2.00 p.m. - Y Parchg John Gwilym Jones

Awst
Dim oedfa trwy'r mis